OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 165

# Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019

## RHAN 2

### Gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau

**Gofynion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben**

**4.**—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu'r gwasanaeth yn unol â'r datganiad o ddiben.

(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth—

(a) cadw'r datganiad o ddiben o dan adolygiad, a

(b) pan fo'n briodol, ddiwygio'r datganiad o ddiben.

(3) Oni bai bod paragraff (4) yn gymwys, rhaid i'r darparwr gwasanaeth hysbysu'r personau a restrir ym mharagraff (6) am unrhyw ddiwygiad sydd i'w wneud i'r datganiad o ddiben o leiaf 28 o ddiwrnodau cyn y mae i gymryd effaith.

(4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys mewn achosion pan fo'n angenrheidiol diwygio'r datganiad o ddiben gydag effaith ar unwaith.

(5) Os yw paragraff (4) yn gymwys, rhaid i'r darparwr gwasanaeth, yn ddi-oed, hysbysu'r personau a restrir ym mharagraff (6) am unrhyw ddiwygiad a wneir i'r datganiad o ddiben.

(6) Y personau y mae rhaid iddynt gael eu hysbysu am unrhyw ddiwygiad i'r datganiad o ddiben yn unol â pharagraff (3) neu (5) yw—

(a) y rheoleiddiwr gwasanaethau,

(b) yr unigolion,

(c) comisiynwyr gwasanaethau, a

(d) unrhyw gynrychiolydd, oni bai nad yw'n briodol gwneud hynny neu y byddai gwneud hynny yn anghyson â llesiant unigolyn.

(7) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu'r datganiad o ddiben cyfredol i unrhyw berson ar gais, oni bai nad yw'n briodol gwneud hynny neu y byddai gwneud hynny yn anghyson â llesiant unigolyn.